

CCSDL1

CCSDL1 Gwerthuso a chyfathrebu eich sgiliau wrth arwain dawn 1



Gwerthuso a chyfathrebu eich sgiliau wrth arwain dawn

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gwerthuso a chyfathrebu eich sgiliau wrth arwain dawn ac unrhyw brofiadau ategol a all fod yn fanteisiol ar gyfer gweithio gyda phobl benodol neu mewn mannau penodol.

Mae angen cymorth ar gyflogwyr a chyfranogwyr i ddeall yr hyn y gallwch ei gynnig iddynt h.y. yr hyn rydych chi eich hun yn ei gynnig o ran dawn.

Mae hunanymwybyddiaeth ac arfarniad gonest o'ch sgiliau fel arweinydd dawn yn hanfodol er mwyn sicrhau eich bod yn marchnata eich hun yn fanwl-gywir.

Yn achos arweinwyr dawn mewn ysgol breifat gallai rhieni fod ymhlith y bobl y dylech chi allu cyfathrebu â nhw. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i artistiaid dawn sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain mewn nifer o leoliadau gyfathrebu ag amrywiaeth o bobl a sefydliadau gan gynnwys asiantaeth ddawns, awdurdod lleol neu gyllidwr arall, cyfranogwr, rhiant, gweithiwr addysg neu iechyd

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 cyfleu i eraill eich sgiliau a'ch profiad o arwain gweithgareddau dawn

P2 nodi eich cryfderau a'ch gwendidau eich hun

P3 disgrifio sut a pham rydych chi eisiau arwain dawn gyda grwpiau penodol o bobl a/neu mewn mannau penodol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 pwysigrwydd gwerthuso eich sgiliau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, meini prawf a chyfeiriadau

K2 y gwahaniaeth rhwng "arwain" dawns a "hyfforddi" dawns

K3 sut mae adnabod nodweddion ymarfer effeithiol wrth arwain dawns

K4 dulliau o nodi lefel eich sgiliau o ran nodweddion cydnabyddedig ymarfer diogel ac effeithiol wrth arwain dawns

K5 pwysigrwydd sgiliau trosglwyddadwy a all eich paratoi i arwain dawns gyda grwpiau penodol o bobl a/neu mewn mannau penodol

Gwybodaeth Ychwanegol Rhestr Eirfa

Arwain Dawns - defnyddir y term hwn i wahaniaethu rhwng arwain a hyfforddi a dysgu. Er bod hyfforddi a dysgu'n rhan bwysig o'r gwaith hwn nid ydynt yn disgrifio'r holl gymwyseddau sy'n ofynnol er mwyn arwain dawns. Yn ogystal â dilyn maes llafur, traddodiad neu gwricwlwm wedi'i saernïo o amgylch addysg neu arddull ddawns, neu weithiau yn hytrach na gwneud hynny, bydd yr arweinydd dawns yn creu cyfleoedd i gyfranogwyr gyfrannu'n greadigol i lunio'u dawns neu eu rhaglen ddawns. Mae 'arwain' dawns yn gofyn bod ymarferwr yn gallu ymchwilio, cynllunio, sefydlu, marchnata, dysgu/hwyluso/gwneud a gwerthuso dawns gyda grwpiau a/neu unigolion penodedig mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Sgiliau trosglwyddadwy – y sgiliau sydd gennych sy'n berthnasol i'r bobl rydych am weithio gyda nhw neu'r mannau lle rydych am weithio, ac sy'n ychwanegol at eich sgiliau arwain dawns, y byddwch wedi'u datblygu o bosibl drwy brofiadau bywyd neu fathau eraill o hyfforddiant ffurfiol, er enghraifft, yn y sectorau gofal, iechyd neu addysg.

Mae **grwpiau penodol o bobl a/neu fannau penodol** yn cyfeirio at ystod o grwpiau a allai gymryd rhan mewn dawns, er enghraifft, plant a phobl ifanc, pobl hŷn neu bobl anabl; gallai mannau penodol gyfeirio at ystod o fannau lle gelid cynnal dawns, gan gynnwys mannau penodol, er enghraifft, ysbytai, canolfannau ieuencid, cartrefi preswyl, neu leoliadau cyfiawnder troseddol.

Cynnig o ran dawns - mae'r term "cynnig" yn un a ddefnyddir yn gyffredin ym myd busnes i olygu'r cynnyrch neu'r gwasanaeth rydych chi'n ei gynnig a dylech gyfleu'r cynnig yn glir fel bod eich cwsmeriaid yn ei ddeall. Fe'i defnyddir yn yr un modd yma; bydd gwerthuso eich sgiliau a'u mynegi fel "cynnig" yn fodd i chi a phobl eraill bennu eu gwerth. Bydd hyn yn eich galluogi i farchnata eich gwasanaeth yn hyderus.

Datblygwyd gan

Sgiliau Creadigol a Diwylliannol

Rhif y fersiwn

1

Dyddiad cymeradwyo

Mawrth 2011

Dyddiad adolygu dangosol

Dilysrwydd

Cyfredol

Statws

Gwreiddiol

Sefydliad deilliadol

Sgiliau Creadigol a Diwylliannol

Cyfeirnod Unigryw (URN)

CCSDL1

Gwreiddiol

Galwedigaethau perthnasol

Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig
a Llenyddol

Cyfres

Arweinyddiaeth Ddawns

Geiriau allweddol

arweinyddiaeth ddawns, dawns cymunedol,
gwerthuso, hunan-werthuso

CCSDL2

Adnabod, ymchwilio a deall eich marchnad



Trosolwg

Mae'r safon hon ym ymwneud â nodi'r sgiliau sy'n ofynnol i ddarparu dawnys ar gyfer marchnad benodol er mwyn sicrhau bod eich gwaith yn effeithiol.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 nodi ffynonellau gwybodaeth perthnasol sy'n ymwneud â marchnad bosibl

P2 defnyddio gweithgareddau ymchwil priodol i gasglu gwybodaeth am farchnad bosibl

P3 nodi anghenion penodol marchnad bosibl ac ymateb iddynt wrth gynllunio rhaglen ddawns

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 sut mae nodi a lleoli marchnad darged ac ymchwilio iddi

K2 pwysigrwydd gwerthoedd, polisiau neu iaith sy'n berthnasol i gyfathrebu â'r farchnad a nodwyd

K3 anghenion eich marchnad darged

K4 pwysigrwydd ymchwilio i'r arddull/arddulliau dawns, dulliau cyflwyno, rolau a pherthnasoedd a systemau cyfathrebu a ddefnyddiwyd yn flaenorol gyda'r farchnad hon.

Rhestr Eirfa

Mae **marchnad** yn cyfeirio at sectorau o bobl rydych wedi'u nodi fel rhai y gallech weithio gyda nhw drwy baru eich sgiliau, ynghyd â'ch ymchwil, ag anghenion y bobl hyn.

Mae **ymchwil** yn cyfeirio at y gwahanol weithgareddau y gallech eu gwneud i gasglu gwybodaeth am eich marchnad. Gallai hyn gynnwys arsylwi grŵp posibl, adolygu dogfennau ysgrifenedig (adroddiadau, polisiâu, erthyglau), trafod gyda sefydliadau neu gyfranogwyr posibl neu gynnal arolwg o ddata a/neu ystadegau.

Rhaglen ddawns - gall fod yn unrhyw gyfres o sesiynau, yn rhaglen/maes llafur tymor neu flwyddyn, yn gyfnod preswyl dwys unwaith yn unig, neu'n gyfuniad o'r rhain i gyd.

Cysylltiadau â SGC eraill

Pwyntiau cyfeirio defnyddiol ar gyfer y safon hon o gyfresi SGC eraill:

Y Gyfres Sgiliau Creadigol a Diwylliannol:

Gweithio ar eich liwt eich hun yn y diwydiannau creadigol a diwylliannol:

FL2 Diffinio gweledigaeth ac amcanion eich gwaith ar eich liwt eich hun yn y diwydiannau creadigol a diwylliannol

Datblygwyd gan	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Rhif y fersiwn	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2011
Dyddiad adolygu dangosol	
Dilysrwydd Statws	Cyfreddol Gwreiddiol
Sefydliad deilliadol	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Cyfeirnod Unigryw (URN) Gwreiddiol Galwedigaethau perthnasol	CCSDL2 Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig a Llenyddol
Cyfres	Arweinyddiaeth Ddawns
Geiriau allweddol	gwybodaeth am y farchnad, gweithio ar eich liwt eich hun, cystadleuaeth, ymchwil i'r farchnad; arweinyddiaeth ddawns,

CCSDL3

CCSDL3 Nodi eich sgil bersonol a'ch gwybodaeth gyd-destunol am eich arddull(iau) dawns a'u cyfleu i eraill 1



Nodi eich sgil bersonol a'ch gwybodaeth gyd-destunol am eich arddull(iau) dawns a'u cyfleu i eraill

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gallu cyfleu i eraill eich sgiliau technegol fel arweinydd dawns a'ch gwybodaeth am darddiad, hanes a datblygiad yr arddull(iau) a'r ffurf(iau) dawns a ddefnyddiwch, gan gynnwys enghreifftiau cyfredol ohonynt.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 adnabod a chyfleu i eraill eich prif arddull ddawnsio, ynghyd â'i nodweddion, ei chyddestun diwylliannol a sut rydych yn ei darparu.

P2 cyflwyno i eraill enghreifftiau o'ch sgiliau wrth arwain gweithgareddau dawns sy'n briodol i arddulliau neu ffurfiau penodol

Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 sut mae arddangos gwybodaeth a gallu technegol yn eich dewis arddull(iau) dawn

K2 arferion cyfredol a dulliau darparu yn eich dewis arddull(iau) dawn

K3 hanes a chyd-destun eich arddull(iau) dawn

K4 pwysigrwydd casglu enghreifftiau i ddarlunio eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch profiad

Datblygwyd gan

Sgiliau Creadigol a Diwylliannol

Rhif y fersiwn

1

Dyddiad cymeradwyo

Mawrth 2011

Dyddiad adolygu dangosol

Dilysrwydd

Cyfredol

Statws

Gwreiddiol

Sefydliad deilliadol

Sgiliau Creadigol a Diwylliannol

Cyfeirnod Unigryw (URN)

CCSDL3

Gwreiddiol

Galwedigaethau perthnasol

Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig
a Llenyddol

Cyfres

Arweinyddiaeth Ddawns

Geiriau allweddol

cyfathrebu, hyrwyddo eich hun, arweinyddiaeth
ddawns, sgiliau dawns

CCSDL4



CCSDL4 Cyfleu sut byddwch chi'n defnyddio sgiliau creadigol a chyfansoddi sy'n briodol ar gyfer eich marchnad darged 1

Cyfleu sut byddwch chi'n defnyddio sgiliau creadigol a chyfansoddi sy'n briodol ar gyfer eich marchnad darged

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â'ch gallu i gyfleu eich sgiliau a'ch profiad creadigol a chyfansoddi a'u perthnasedd i'ch marchnad darged. Yn achos athro dawns sy'n rhedeg ysgol ddawns breifat, gallai hyn gynnwys y sgiliau sydd eu hangen i gyfarwyddo, paratoi coreograffi ac ymarfer sioe neu arddangosfa flynyddol lle bydd myfyrwyr yn perfformio ar lwyfan. Yn achos artistiaid dawns sy'n arwain gwaith mewn amrywiaeth o fannau gyda gwahanol bobl, gallai hyn gynnwys y sgiliau sydd eu hangen i hwyluso allbwn creadigol gan unigolion neu grwpiau; y sgiliau sydd eu hangen i ddyfeisio agweddau coreograffig ar greu gwaith (o ran y broses a'r cynnyrch); y sgiliau sydd eu hangen i hwyluso mentrau cydweithredol.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 cyfleu i eraill sut y byddwch chi'n dyfeisio ac yn hwyluso prosesau creadigol drwy ddefnyddio amrywiaeth o dasgau a gweithgareddau sy'n briodol i'r grŵp targed

P2 nodi a chyfleu i eraill sut byddwch chi'n dewis ac yn defnyddio dulliau priodol i ddyfeisio a/neu saernïo canlyniadau coreograffig sy'n briodol ar gyfer y grŵp targed a/neu'r cyd-destun

P3 nodi a chyfleu i eraill sut byddwch chi'n cydweithredu, lle bo hynny'n briodol, ag unigolion perthnasol (cyfranogwyr, artistiaid, technegwyr) er mwyn cyflawni nod artistig.

P4 myfyrio'n feirniadol ar brosesau a chanlyniadau er mwyn sicrhau ansawdd y profiad a/neu'r cynnyrch

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 eich sgiliau personol o ran cyfansoddi a phrosesau creadigol

K2 amrywiaeth o strategaethau addysgu ac arwain er mwyn hwyluso ymgysylltu creadigol

K3 sut mae gwahanol strategaethau a strwythurau coreograffig yn llywio eich ymarfer o ran creu dawnys neu hwyluso pobl eraill i greu dawnys

K4 rôl myfyrio beirniadol wrth gyfansoddi dawnys

K5 y rôl y gall agweddau technegol ac artistig eraill ar gynhyrchu ei chwarae wrth gyflwyno dawnys

Gwybodaeth Ychwanegol Rhestr Eirfa

Ymgysylltu creadigol - yn y ddogfen hon mae'r term hwn yn disgrifio gwaith yr arweinydd dawn o ran defnyddio strwythurau sy'n annog cyfranogwyr i brofi persbectif gwahanol, boed hynny'n gysylltiedig â'u corff, ei gilydd, yr amgylchedd o'u cwmpas neu'r rhain i gyd, a all wedyn helpu'r cyfranogwyr i feddwl am syniadau neu brofiadau newydd y gallant eu rhannu.

Mae **sgiliau creadigol** yn cyfeirio at y sgiliau a ddefnyddir i hwyluso gweithgaredd dawn gyda'r grŵp targed. Gallai hyn gynnwys y gallu i arwain gwaith byrffyr, dyfeisio tasgau creadigol, creu deunydd symud, neu ennyn a datblygu ymatebion dychmygus gan unigolion neu grwpiau. Mae'n cynnwys hefyd y gallu i fyfrio'n feirniadol ar weithgareddau a chanlyniadau er mwyn adeiladu ar ganlyniadau cadarnhaol a chael hyd i ddulliau gweithredu amgen pan fydd syniadau neu strategaethau'n llai llwyddiannus.

Sgiliau cyfansoddi - sef y sgiliau sydd eu hangen i ddyfeisio, datblygu, archwilio, adolygu a saernïo deunydd symud sydd eisoes yn bodoli neu sydd newydd ei greu a hynny mewn modd sy'n briodol i'r grŵp targed. Coreograffi yw'r agwedd hon ar gyfansoddi, ond defnyddir y term cyfansoddi yma i gydnabod hefyd y gwaith cydweithredol sy'n digwydd yn aml mewn rhaglenni dawn. Yn y cyd-destun hwn felly, mae cyfansoddi'n cyfeirio at y strwythurau y gellir eu tynnu o ffurfiau celfyddydol eraill i gefnogi'r broses o greu dawn.

Portffolio yw'r casgliad o enghreifftiau perthnasol o'ch sgiliau. Gall fod yn gyfuniad o ddeunydd ysgrifenedig, ffilm a ffotograffau. Mae'n debyg i CV ond mae'n cynnig mwy o ryddid i chi arddangos eich sgiliau a'ch profiadau fel artist a hwylusydd drwy ddulliau cyffyrddol, gweledol a/neu glywadwy

Datblygwyd gan	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Rhif y fersiwn	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2011
Dyddiad adolygu dangosol	
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad deilliadol	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Cyfeirnod Unigryw (URN)	CCSDL4
Gwreiddiol	
Galwedigaethau perthnasol	Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig a Llenyddol
Cyfres	Arweinyddiaeth Ddawns
Geiriau allweddol	arweinyddiaeth ddawns, coreograffi, artistiaid dawn, cyfathrebu, creadigrwydd,



CCSDL5

CCSDL5 Cyfleu eich cymhwysedd a'ch parodrwydd i arwain dawns gyda grwpiau penodol o bobl a/neu mewn mannau penodol 1

Cyfleu eich cymhwysedd a'ch parodrwydd i arwain dawns gyda grwpiau penodol o bobl a/neu mewn mannau penodol

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chyfleu a darparu tystiolaeth o'r holl brofiad sydd gennych sy'n berthnasol i'ch marchnad darged sy'n dangos eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith a hefyd yn gymwys i arwain yr arddull ddawnsio benodol gyda'r grwpiau penodol o bobl a nodir gennych.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 nodi a chyfleu'r sgiliau a'r gwerthoedd sydd gennych i'w cynnig yn y cyd-destun rydych chi'n bwriadu gweithio ynddo

P2 cyflwyno enghreifftiau i eraill o'ch sgiliau arwain dawnys gyda grwpiau penodol a/neu mewn manau penodol

P3 cyflwyno enghreifftiau i eraill o ddatgeliadau cyfreithiol perthnasol a phrawf o bolisiau yswiriant ar gyfer y bobl rydych yn bwriadu gweithio gyda nhw a'r manau rydych chi'n bwriadu gweithio ynddynt.

Gwybodaeth Ychwanegol Rhestr Eirfa

Mae **grwpiau penodol o bobl neu fannau penodol** yn cyfeirio, yn y cyd-destun hwn, at farchnad darged a nodwyd gennych yr ydych yn gobeithio gweithio gyda hi neu rydych chi eisoes yn gweithio gyda hi, er enghraifft: pobl mewn lleoliadau cyfiawnder troseddol, pobl mewn ysbytai neu ofal seibiant, grwpiau blynyddoedd cynnar, pobl hŷn neu bobl anabl. Efallai y bydd gennych gasgliad ategol o sgiliau ar ben eich sgiliau dawns y bydd angen i chi eu cynnwys yn eich portffolio er mwyn dangos eich gwybodaeth ychwanegol. Er enghraifft, mae'n bosibl eich bod yn gyn-athro ysgol gynradd neu wedi'ch hyfforddi mewn proffesiwn iechyd neu ofal.

Cyfranogwr – yr unigolyn sy'n cymryd rhan yn y sesiwn ddawns, a gaiff ei ddisgrifio'n aml fel dysgwr neu ddisgybl hefyd

Portffolio yw casgliad o enghreifftiau sy'n gallu bod yn gyfuniad o ddeunydd ysgrifenedig, ffilm a ffotograffau.

Ystyr **person-ganolog** yma yw dull arweinyddiaeth sy'n ceisio creu amgylchedd dysgu sy'n adeiladu ar nodweddion a chryfderau presennol pob unigolyn a'u hannog i archwilio dawns yn weithredol.

Datblygwyd gan

Sgiliau Creadigol a Diwylliannol

Rhif y fersiwn

1

Dyddiad cymeradwyo

Mawrth 2011

Dyddiad adolygu dangosol

Dilysrwydd

Cyfredol

Statws

Gwreiddiol

Sefydliad deilliadol

Sgiliau Creadigol a Diwylliannol

Cyfeirnod Unigryw (URN)

CCSDL5

Gwreiddiol

Galwedigaethau perthnasol

Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig
a Llenyddol

Cyfres

Arweinyddiaeth Ddawns

Geiriau allweddol

arweinyddiaeth ddawns, cyfathrebu, arddulliau
dawns



CCSDL6

CCSDL6 Defnyddio gwahanol gyfryngau a dulliau i gyfathrebu â'ch marchnad darged 1

Defnyddio gwahanol gyfryngau a dulliau i gyfathrebu â'ch marchnad darged

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gallu cyfathrebu a chyflwyno eich hun yn effeithiol i'ch marchnadoedd targed.

Gallai fod yn bwysig i'r bobl rydych am eu cyrraedd fod gennych bresenoldeb ar-lein, gallai fod yn bwysig i eraill fod gennych ffeil y gallant bori ynddi sy'n cynnwys tystysgrifau a lluniau o'ch gwaith.

Mae'n bosibl y bydd ansawdd uchel gwaith dylunio ac argraffu yn bwysicach yn eich cyflwyniadau os ydych am greu gweithiau celfyddyd dawns gyda phobl a'ch bod yn cyflwyno syniadau i'r sector masnachol neu i gyllidwyr y celfyddydau. Gallech roi llai o bwyslais ar hyn os ydych, er enghraifft, yn ennyn diddordeb y gymuned leol mewn sesiynau dawnsio gwerin.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 cyflwyno'ch hun i wahanol farchnadoedd targed mewn gwahanol ffyrdd

P2 sicrhau caniatâd i ddefnyddio lluniau o bobl wrth farchnata

P3 gosod eich cynnig o ran dawns gerbron eich marchnad mewn manau sy'n berthnasol iddi

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 amrywiaeth o ffyrdd o gyfathrebu am eich gwaith

K2 y rôl y gall technoleg ei chwarae o ran eich helpu i hyrwyddo'ch gwaith

K3 sicrhau cydsyniad priodol i ddefnyddio enghreifftiau gweledol wedi'u recordio o'ch sesiynau dawns

K4 moeseg defnyddio rhwydweithiau a chyfryngau cymdeithasol priodol i rannu eich gwaith.

K5 sut mae cynnal ymchwil i brofi'ch marchnad darged a darganfod sut y byddai'n ffafrio cael mynediad i'ch gwaith

Gwybodaeth Ychwanegol Rhestr Eirfa

Cynnig - mae'r term "cynnig" yn un a ddefnyddir yn gyffredin ym myd busnes i olygu eich cynnyrch neu eich gwasanaeth sy'n cael ei gyfathrebu'n glir er mwyn i'ch cwsmeriaid ei ddeall. Fe'i defnyddir yn yr un modd yma, drwy werthuso eich sgiliau eich hun a'u mynegi ar ffurf yr hyn y gallwch ei gynnig, fydd yn golygu eich bod chi ac eraill yn gallu pennu eu gwerth a byddwch yn gallu marchnata eich gwasanaeth yn hyderus.

Marchnad darged - gallai'r farchnad fod yn gyfranogwyr rydych chi'n cysylltu'n uniongyrchol â nhw, sy'n gymuned a nodwyd gennych fel un a allai groesawu'r hyn rydych chi'n ei gynnig a gellid ei diffinio, er enghraifft, yn ôl lleoliad, diddordeb, diwylliant neu sefydliad. Fel arall, gallai eich marchnad darged fod yn gyflogwyr, yn gyllidwyr neu'n gomisiynwyr

Datblygwyd gan

Sgiliau Creadigol a Diwylliannol

Rhif y fersiwn

1

Dyddiad cymeradwyo
Dyddiad adolygu dangosol

Mawrth 2011

Dilysrwydd

Cyfredol

Statws
Sefydliad deilliadol

Gwreiddiol
Sgiliau Creadigol a Diwylliannol

Cyfeirnod Unigryw (URN)
Gwreiddiol
Galwedigaethau perthnasol

CCSDL6

Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig
a Llenyddol

Cyfes
Geiriau allweddol

Arweinyddiaeth Ddawns
arweinyddiaeth ddawns, marchnata, hyrwyddo,
portffolio

CCSDL7

CCSDL7 Dylunio rhaglenni gwaith dawns sy'n briodol ar gyfer grwpiau ac unigolion penodol 1



Dylunio rhaglenni gwaith dawns sy'n briodol ar gyfer grwpiau ac unigolion penodol

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gallu cyfleu'r rôl y byddwch yn ei chyflawni a'r gefnogaeth y byddwch yn disgwyl ei chael gan randdeiliaid yn gyfnewid am hynny i sicrhau bod dyluniad rhaglen ddawns yn addas i'r diben.

Mae'r safon hon yn sicrhau eich bod chi'n chwarae rhan weithredol o ran creu'r sefyllfaoedd gwaith y byddwch yn camu iddynt. Rhaid i ddyluniad y rhaglen fod yn glir o ran ei bwrpas a rhaid iddo baru'r sgiliau sydd gennych â'r defnyddiwr terfynol.

Gall disgrifio'r safon hon fel enghraifft o rychwantu prosiect fod yn ddefnyddiol. Mae hwn yn derm cyffredin ym myd busnes sy'n golygu profi syniadau yn erbyn yr adnoddau dynol ac ariannol sydd ar gael, er mwyn cael gwybod a yw'r syniad yn realistig er mwyn cyflawni dymuniad y cwsmer, ac eto'n rhoi digon o arian i'r busnes i'w gyflawni.

Gall y safon hon fod yn fwy manwl i rai arweinyddion dawns na'i gilydd, yn dibynnu ar gymhlethdod y cyd-destun y byddant yn gweithio ynddo. Byddai cyd-destun cymhleth yn cynnwys nifer o newidynnau, er enghraifft, cyllidwyr lluosog, perfformiad dawns awyr agored, bod yn rhan o wyl, arwain dawns mewn lleoliadau addysg, iechyd neu gyfiawnder troseddol, neu weithio fel rhan o dîm artistig.

Petai llai o newidynnau megis un arweinydd, un lleoliad, ar adeg benodedig gyda'r un grŵp heb fod angen gweithwyr cymorth, a chyllid wedi'i reoli'n breifat, byddai'r safon hon yn dal yn hanfodol, ond byddai lefel ofynnol y sgiliau trafod telerau yn is.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 rychwantu dyluniad rhaglen ddawns sy'n addas i'r diben o'ch safbwynt chi, eich cyfranogwyr a'ch rhanddeiliaid

P2 paratoi man ymarfer diogel ar gyfer y sesiynau y byddwch yn eu harwain

P3 cyd-drafod eich rôl yn y rhaglen a disgrifio'r amodau na allwch gyfaddawdu yn eu cylch os ydych am gyflawni eich addewidion

P4 nodi pa ganiatâd a materion cyfreithiol y gall fod angen i chi eu hystyried wrth ddylunio eich rhaglen ddawns

P5 cynnwys artistiaid neu staff cynorthwyol yn eich sesiynau

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 sut mae cymhwyso eich sgiliau arwain dawns fel eu bod yn addas i'r diben, i chi ac i'ch grwpiau/cyfranogwyr.

K2 yr amgylcheddau gwaith rydych chi'n bwriadu gweithio ynddynt a'r wybodaeth y bydd angen i chi ei rhoi iddyn nhw a'i chael ganddyn nhw
K3 effaith newid unrhyw agwedd ar y dyluniad a gynigiwyd, er mwyn gallu dadlau dros ail-drafod telerau er enghraifft, ffi, amser, gweithwyr cymorth neu nifer y grwpiau

K4 datblygu ymwybyddiaeth o'r rôl y byddwch chi'n ei chymryd fel arweinydd dawns o ran yr unigolion a'r sefydliadau sy'n cefnogi eich rhaglen ddawns

K5 pwysigrwydd y seilwaith cyfreithiol perthnasol ehangach sy'n ofynnol i ddarparu eich rhaglen ddawns, gan gynnwys unrhyw yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, caniatâd diogelu data i gofnodi'r rhaglen, caniatâd i weithio gyda grwpiau penodol o bobl.

Gwybodaeth Ychwanegol Rhestr Eirfa

Gall **rhaglen ddawns** fod yn unrhyw gyfres o sesiynau, yn rhaglen/maes llafur tymor neu flwyddyn, yn gyfnod preswyl dwys unwaith yn unig, neu'n gyfuniad o'r rhain i gyd.

Rhanddeiliaid yw'r bobl sydd â budd yn y prosiect. Y rhain, yn aml, yw'r bobl sy'n darparu arian ar gyfer eich prosiect neu gymorth ymarferol megis man cynnal neu adnoddau staff.

Ystyr **addas i'r diben** yw diwallu gofynion, anghenion neu ddyheadau'r cwsmer. Dylai ddiwallu eich gofynion chi hefyd. Bu llawer o brosiectau cymunedol yn ddibynol ar fuddsoddiad amser ar ben yr hyn y telir pobl i'w wneud. Dylech fod ag ymwybyddiaeth glir a chynyddol o'r adegau pan fydd pobl yn buddsoddi amser ar ben eu cyflog er mwyn i chi allu dewis p'un a allwch fforddio gwneud hyn neu a oes angen newid nodau'r prosiect.

Mae **cwmpas** yn cyfeirio at bennu terfynau eich rhaglen ddawns; er enghraifft, gosod terfyn ar nifer y bobl all gymryd rhan mewn sesiwn ddawns, cynnal sesiynau mewn manau lle na fydd dim yn torri ar draws y gwaith yn unig, gweithio gyda cherddor ac ati. Bydd agweddau ar gwmpas y gwaith y byddwch yn gwrthod cyfaddawdu arnynt, ac agweddau y byddwch yn barod i'w trafod, yn dibynnu ar nodau'r rhaglen a'r arian a'r amser sydd ar gael iddi.

Cysylltiadau â SGC eraill

Pwyntiau cyfeirio defnyddiol ar gyfer y safon hon o gyfresi SGC eraill:

Sgiliau Creadigol a Diwylliannol - Gweithio ar eich liwt eich hun yn y diwydiannau creadigol a diwylliannol

Datblygwyd gan

Sgiliau Creadigol a Diwylliannol

Rhif y fersiwn

1

Dyddiad cymeradwyo

Mawrth 2011

Dyddiad adolygu dangosol

Dilysrwydd

Cyfredol

Statws

Gwreiddiol

Sefydliad deilliadol

Sgiliau Creadigol a Diwylliannol

Cyfeirnod Unigryw (URN)

CCSDL7

Gwreiddiol

Galwedigaethau perthnasol

Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig
a Llenyddol

Cyfres

Arweinyddiaeth Ddawns

Geiriau allweddol

arweinyddiaeth ddawns, rhaglenni dawns,
dylunio dawns

CCSDL8

CCSDL8 Rheoli disgwyliadau gyda'r unigolion, y grwpiau, y cyllidwyr a'r partneriaid sy'n cymryd rhan 1



Rheoli disgwyliadau gyda'r unigolion, y grwpiau, y cyllidwyr a'r partneriaid sy'n cymryd rhan

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli disgwyliadau'r bobl sy'n cymryd rhan unwaith y bydd y rhaglen ddawns wedi'i dylunio neu'n cael ei dylunio. Mae llawer o ddisgwyliadau i'w rheoli gan fod gan bawb syniadau gwahanol am ystyr dawnns felly gallai fod gofyn i chi weithredu fel eiriolydd dros eich arddull ddawns a'r ffordd y byddwch chi'n ei chyflwyno.

Yn ogystal, bydd disgwyliadau unigol ynghylch canlyniadau, er enghraifft, gallai cyfranogwyr sy'n ddechreuwr fod â disgwyliadau afrealistig ynghylch beth gall eu cyrff wneud, gall fod gan rieni ddisgwyliadau afrealistig ynghylch beth gall eu plant gyflawni, a gall fod gan raglennydd ddisgwyliadau afrealistig ynghylch nifer y bobl y gellir eu cyrraedd.

Bydd angen i'ch cyfranogwyr ddeall eich arddull ddawns a'ch proses ddarparu, ond gall fod angen i eraill wneud hynny hefyd, fel rhieni, gweithwyr cymorth, cyllidwyr neu sefydliadau partner fel manau cynnal. Po gliraf y gallwch fod yn y cam rhychwantu hwn, mwyaf o ymddiriedaeth fydd yn datblygu rhyngoch a'ch grwpiau a'ch cyllidwyr posibl.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 Nodi a chyd-drafod adnoddau dynol ac ariannol ar gyfer y rhaglen ddawns i'ch galluogi chi i reoli ei chwmpas gyda'ch rhanddeiliaid

P2 Rheoli sefydlu rhaglen ddawns sy'n diwallu anghenion y gwahanol randdeiliaid

P3 Rheoli materion cyllidebol, contractiol, cyfreithiol a hawlfraint sy'n berthnasol i chi a'ch rhaglen ddawns

P4 Cyfathrebu'n gynhwysol ac effeithiol ar draws y grwpiau oedran a gallu er mwyn pennu a rheoli disgwyliadau cyfranogwyr ac unigolion neu sefydliadau partner

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 Pwysigrwydd rhannu eich sgiliau artistig, hwyluso a chyd-drafod gyda'ch cyfranogwyr dawns a'ch sefydliadau partner

K2 Sut mae rheoli eich ffi, eich contractau, eich cyllidebau a materion perthnasol o ran y gyfraith neu hawlfraint

K3 Ystyr ymarfer proffesiynol a sut y byddwch yn ei ddarparu

K4 Sut mae cyfathrebu yn bersonol ac ysbrydoli unigolion a grwpiau ynghylch dyluniad, proses a gwerthoedd eich rhaglen ddawns

K5 Pwysigrwydd cyflwyno canlyniadau realistig ar gyfer eich rhaglen ddawns

K6 Pwysigrwydd bod yn ymwybodol o'ch sgiliau er mwyn i chi allu bod yn onest gyda grwpiau a sefydliadau partner o ran gwybod pa gymorth ychwanegol sydd ei angen arnoch er mwyn darparu rhaglen ddawns

K7 Sut mae cynnwys ac ysgogi unigolion a sefydliadau partner i'ch cefnogi yn achos bylchau o ran sgiliau neu adnoddau, a datblygu eu rôl

K8 Pwysigrwydd darparu llwybr cyflawniad realistig i'r cyfranogwyr

Gwybodaeth Ychwanegol Rhestr Eirfa

Gweithwyr cymorth - gweithiwr gofal proffesiynol neu gynorthwy-ydd dysgu sy'n darparu cymorth arbenigol neu brentis sy'n cysgod i eich sesiynau.

Cydweithwyr - artistiaid sy'n cydweithredu a all fod yn rhannu'r arweinyddiaeth gyda chi ac sy'n cyfrannu eu sgiliau dawns neu ffurfiau celfyddydol eraill

Unigolion a sefydliadau partner yw'r bobl sy'n gweithio gyda chi sydd naill ai yn rhoi eu hamser i gefnogi eich sesiynau yn ystod y camau cynllunio a gwerthuso a/neu'n cyfrannu arian er mwyn i'r sesiynau allu digwydd. Gallent helpu i baratoi'r man cynnal, marchnata ar eich rhan, eich helpu i fesur yr effaith a gewch neu gyllido eich sesiynau.

Rhaglen ddawns - gall fod yn unrhyw gyfres o sesiynau, yn rhaglen/maes llafur tymor neu flwyddyn, yn gyfnod preswyl dwys unwaith yn unig, neu'n gyfuniad o'r rhain i gyd.

Ymarfer proffesiynol - mae hyn yn cyfeirio at eich cyfrifoldeb chi am eich ymddygiad, a gweithio mewn modd moesegol a thryloyw. Mae'n berthnasol p'un a ydych yn ystyried eich hun yn weithiwr gwirfoddol, yn amatur neu'n weithiwr proffesiynol cyflogedig

Datblygwyd gan

Sgiliau Creadigol a Diwylliannol

Rhif y fersiwn

1

Dyddiad cymeradwyo

Mawrth 2011

Dyddiad adolygu dangosol

Dilysrwydd

Cyfredol

Statws

Gwreiddiol

Sefydliad deilliadol

Sgiliau Creadigol a Diwylliannol

Cyfeirnod Unigryw (URN)

CCSDL8

Gwreiddiol

Galwedigaethau perthnasol

Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig
a Llenyddol

Cyfes

Arweinyddiaeth Ddawns

Geiriau allweddol

Arweinyddiaeth ddawns, rheoli disgwyliadau,
cyfranogi mewn dawns, dawns cymunedol



CCSDL9

CCSDL9 Meithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth gyda grwpiau cymunedol ac oddi mewn iddynt er mwyn ysbrydoli pobl i fanteisio ar eich sesiwn/sesiynau 1

Meithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth gyda grwpiau cymunedol ac oddi mewn iddynt er mwyn ysbrydoli pobl i fanteisio ar eich sesiwn/sesiynau

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â sefydlu grwpiau newydd o gyfranogwyr ar gyfer rhaglenni dawns. Mae'n rhaid i arweinwyr dawns allu ennyn diddordeb, ysgogi unigolion i gymryd rhan yn eu rhaglenni dawns a bod yn eglir ynghylch yr hyn sydd ganddynt i'w gynnig. Pan fydd unigolion yn cytuno i gymryd rhan, mae angen iddynt deimlo eu bod yn cael gwrandawriad ac yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn ddiogel yn yr amgylchedd a grëwyd gan yr arweinydd dawns, eu bod yn deall yr ymrwymiad y disgwylir iddynt ei wneud a'r hyn a gynigir iddynt yn gyfnewid am hynny.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 nodi angen clir am eich rhaglen ddawns

P2 trafod a chytuno ar ddiben a sail unrhyw weithgaredd ddawns a yrrir gan agendâu cymdeithasol i gydweddu â'ch sgiliau chi a gofynion y grŵp a'r cyllidwr

P3 cyfathrebu ar lefel sy'n cyfateb i anghenion eich cleientiaid a rhanddeiliaid eraill

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 sut mae nodi ac ymchwilio i'r farchnad ar gyfer eich gweithdy neu eich rhaglen ddawns

K2 pwysigrwydd ac effaith cyfathrebu effeithiol - gwybod sut mae ymchwilio i'r sianeli cyfathrebu gorau ar gyfer y gymuned rydych chi'n awyddus i weithio gyda hi

K3 pennu cyflymder prosiectau a chynllunio amserlenni sy'n berthnasol i'r cymunedau y byddwch yn gweithio gyda nhw

Gwybodaeth Ychwanegol

Rhestr Eirfa

Mae **agendâu cymdeithasol** yn y safon hon yn cyfeirio at fentrau mae'r llywodraeth yn eu harwain a all olygu bod ffynhonnell gyllido'r sesiynau dawnys yn cael ei gyrru, er enghraifft, gan flaenoriaethau a thargedau iechyd, addysg neu gyfiawnder troseddol

Cysylltiadau â SGC eraill

Pwyntiau cyfeirio defnyddiol ar gyfer y safon hon o gyfresi SGC eraill:

Cyngor Sgiliau Sector: Sgiliau Creadigol a Diwylliannol

Cyfres: Y Celfyddydau Cymunedol: Safon CCS17 Cyfrannu at ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed

Datblygwyd gan

Sgiliau Creadigol a Diwylliannol

Rhif y fersiwn

1

Dyddiad cymeradwyo

Mawrth 2011

Dyddiad adolygu dangosol

Dilysrwydd

Cyfredol

Statws

Gwreiddiol

Sefydliad deilliadol

Sgiliau Creadigol a Diwylliannol

Cyfeirnod Unigryw (URN)

CCSDL9

Gwreiddiol

Galwedigaethau perthnasol

Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig
a Llenyddol

Cyfes

Arweinyddiaeth Ddawns

Geiriau allweddol

Arweinyddiaeth ddawns, meithrin perthynas,
grwpiau cymunedol, dawns cymunedol; y cynnig
o ran dawns

CCSDL10

Meithrin ymddiriedaeth gyda sefydliadau lletya a chyllidwyr

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chyfathrebu'n glir a gweithredu'n broffesiynol ar hyd y broses o sefydlu rhaglen ddawns. Mae'r safon hon yn fwyaf perthnasol i arweinyddion dawns sy'n sefydlu rhaglenni dawns mewn lleoliadau cymunedol, ond gallai fod yn berthnasol hefyd i berthynas ysgolion dawns preifat â rhieni.

Er enghraifft, bod yn dryloyw am eich ffioedd, a/neu gyllidebu ar gyfer y rhaglen, cymhwyso eich gwybodaeth amdanoch eich hunan er mwyn cyflwyno'r hyn y gallwch ei gyflawni mewn gwirionedd oddi mewn i raglen gyda'r gefnogaeth sydd gennych, heb addo gormod o ran y canlyniadau. Mae'r safon hon yn gweithio'r ddwy ffordd, ac mae angen i'r sefydliad lletya neu'r cyllidwr gyflawni eu haddewidion yn eu perthynas â chi. Mae'r safon hon yn sicrhau eich bod yn gallu nodi eich anghenion yn bendant, yn ogystal â meithrin ymddiriedaeth yn eich gallu i gyflawni.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 disgrifio'r hyn rydych chi'n ei gynnig o ran dawns i eraill a dangos sut gallwch chi hyfforddi, eiriol, rhannu a chydweithio er mwyn cynnwys y bobl sy'n cefnogi eich sesiynau

P2 cynhyrchu cyllideb a chynnal eich sefyllfa ariannol mewn modd clir a thryloyw

P3 cyflawni a rheoli'r gwiriadau, y datgeliadau a'r trwyddedau angenrheidiol sy'n effeithio ar eich rhaglen ddawns

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 pwysigrwydd eiriol dros eich arddull gyflwyno er mwyn datblygu ymddiriedaeth ac ymwybyddiaeth o'ch dull gweithredu ymhlith sefydliadau partner, e.e. gwahodd comisiynwyr i sesiynau dawns rydych chi'n eu cynnal

K2 sut mae cymhwysu eich arweinyddiaeth ddawns fel ei bod yn addas at y diben, i chi a'ch partneriaid

K3 pwysigrwydd cynnal rhaglen ddawns yn brydlon ac o fewn y gyllideb

K4 sut mae rheoli cyllideb a'r adnoddau ymarferol sydd ar gael i chi

K5 sut mae sicrhau bod gwiriadau cyfreithiol, diogelu data ac yswiriant perthnasol yn eu lle

K6 pwysigrwydd sicrhau cydsyniad cyfranogwyr neu gynulleidfaoedd ar gyfer ffilmio neu ddogfennu

K7 pwysigrwydd meddu ar drwydded cerddoriaeth a chaniatâd perthnasol ar gyfer eich defnydd o ddeunydd artistig arall sydd o dan hawlfraint

Gwybodaeth Ychwanegol
Rhestr Eirfa

Patneriad - sefydliad lletyd a/neu gyllidwyr.

Datblygwyd gan

Sgiliau Creadigol a Diwylliannol

Rhif y fersiwn

1

Dyddiad cymeradwyo

Mawrth 2011

Dyddiad adolygu dangosol

Dilysrwydd

Cyfredol

Statws

Gwreiddiol

Sefydliad deilliadol

Sgiliau Creadigol a Diwylliannol

Cyfeirnod Unigryw (URN)

CCSDL10

Gwreiddiol

Galwedigaethau perthnasol

Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig
a Llenyddol

Cyfes

Arweinyddiaeth Ddawns

Geiriau allweddol

arweinyddiaeth ddawns, dawns cymunedol,
ysgolion dawns, meithrin perthynas



CCSDL11

CCSDL11 Annog cysylltiad a chydweithio â thimau cefnogi 1

Annog cysylltiad a chydweithio â thimau cefnogi

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag annog cydweithio â thimau cefnogi. Bydd hon yn fwyaf perthnasol i arweinwyr dawns sy'n darparu rhaglenni dawns mewn gwahanol leoliadau neu gyda phobl sydd ag angen cymorth arbenigol ychwanegol i gymryd rhan mewn dawns.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 cydweithio ag arbenigwyr a ddewiswyd megis cydarweinwyr tîm artistig, a derbyn chymorth, er enghraifft, gan weithwyr ieched, ffisiotherapyddion, gweithwyr cymorth dysgu er mwyn i'r rhaglen ddawns gael yr effaith fwyaf posibl

P2 rheoli adnoddau i gefnogi'r rhaglen

P3 ysbrydoli ac ysgogi pobl, p'un a ydynt yn staff cyflogedig neu'n wirfoddolwyr, i gefnogi'r rhaglen

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 pwysigrwydd bod yn glir ynghylch eich rôl eich hun a'r cymorth mae arnoch ei angen gan eraill ar gyfer y rhaglen ddawns benodol rydych wedi'i dylunio

K2 sut mae ysgogi pobl ac ysbrydoli timau cefnogi, gan gynnwys staff cymorth cyflogedig neu wirfoddolwyr, i gymryd rhan yn eich rhaglen ddawns

K3 sut mae rheoli'r adnoddau dynol ac ariannol sydd ar gael i chi gan ysgogi cefnogaeth ymarferol lle bo hynny'n bosibl

K4 pwysigrwydd ymarfer ymatblyg, sef gwerthuso'r prosiect wrth iddo fynd yn ei flaen a sut gallwch chi newid dyluniad rhaglen i gydweddu â chryfderau'r grŵp neu'r tîm cefnogi wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Rhestr Eirfa

Yn y safon hon, mae **ymarfer adfyfyriol** yn cyfeirio at eich gwaith meddwl am y sesiwn ar ôl ei darparu a sut bydd gwerthuso'r sesiwn yn llywio eich blaengynllunio

Yn y safon hon, mae **ymarfer ymatblyg** yn cyfeirio at y gwaith meddwl a'r penderfyniadau a wnewch yn ystod eich sesiynau neu gyfarfodydd o ganlyniad i werthuso eich dull darparu gyda'ch cyfranogwyr tra byddwch yn y sesiwn

Datblygwyd gan	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Rhif y fersiwn	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2011
Dyddiad adolygu dangosol	
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad deilliadol	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Cyfeirnod Unigryw (URN)	CCSDL11
Gwreiddiol	
Galwedigaethau perthnasol	Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig a Llenyddol
Cyfres	Arweinyddiaeth Ddawns
Geiriau allweddol	arweinyddiaeth ddawns, dawns cymunedol, cydweithio, gwaith tîm,

CCSDL12

Arwain dawnns yn ddiogel ac yn effeithiol



Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â sicrhau eich bod yn gallu amddiffyn eich iechyd a'ch diogelwch eich hun a'ch cyfranogwyr er mwyn gallu darparu'r dysgu mwyaf effeithiol, gan roi ystyriaeth i holl brofiad y sesiwn ddawns, gan gynnwys diogelu cyn ac ar ôl y sesiwn.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 nodi anghenion eich cyfranogwyr dawns a phenderfynu beth byddwch chi'n ei wneud i ddiwallu eu hanghenion yn y sesiwn/sesiynau

P2 saernio sesiynau er mwyn cynnig darpariaeth ddiogel ac effeithiol i gyfranogwyr, gan amddiffyn eu llesiant corfforol ac emosiynol a phennu nodau priodol

P3 hwyluso amgylchedd dysgu diogel ac effeithiol sy'n gwneud i unigolion deimlo'n gyfforddus

P4 cynnal asesiad risg

P5 cynnwys gweithwyr proffesiynol eraill i gefnogi ymarfer diogel yn eich sesiynau dawns a'r tu allan iddynt

P6 derbyn cyfrifoldeb am gyflwyno'ch hun yn broffesiynol fel model rôl i'r grŵp

P7 pennu rheolau sylfaenol ynghylch cydraddoldeb, parch a'ch diogelwch chi a'r cyfranogwyr yn eich sesiynau dawns

P8 cyfathrebu'n glir a pharchus â'ch grŵp/grwpiau

P9 derbyn cyfrifoldeb am eich llesiant corfforol ac emosiynol fel model rôl ar gyfer eich grŵp/grwpiau

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 pwysigrwydd bod yn ymwybodol, yn ddamcaniaethol a thrwy brofiad, o sut mae'r corff yn gweithio yng nghyswllt yr arddull ddawns rydych chi'n ei harwain, gan gynnwys agweddau pwysig ar ffisioleg ac anatomeg gymwysedig

K2 egwyddorion ymarfer dawns diogel ac effeithiol gan gynnwys agweddau allweddol ar faethiad, biomecaneg a rheoli ac atal anafiadau, ar ben yr uchod

K3 pwysigrwydd arsylwi'n fanwl ar gyfranogwyr i asesu ymarfer diogel ac effeithiol

K4 pwysigrwydd cyfathrebu'n glir â'r cyfranogwyr fel eu bod yn deall yr hyn rydych chi'n gofyn iddyn nhw ei wneud a sut y dylent ymddwyn mewn perthynas ag eraill yn eich sesiwn

K5 sut mae asesu, ymateb a bod yn hyblyg o ran anghenion presennol eich cyfranogwyr yn y sesiwn, gan roi ystyriaeth i'r wybodaeth flaenorol a gasglwyd wrth gynllunio'r sesiwn gyda'ch grŵp

K6 sut mae ystyried llesiant emosiynol cyfranogwyr yn eich sesiwn a chyfeirio at rywdeithiau cymorth eraill lle bo hynny'n briodol

K7 sut mae bod yn ymwybodol o gydraddoldeb yn eich defnydd o iaith ac yn y modd y byddwch yn rhannu sylw unigol yn eich sesiynau dawns

K8 pwysigrwydd gwahaniaethu'r gweithgaredd er mwyn sicrhau cynhwysiad unigolion yn y grŵp

K9 deinameg y grŵp a phwysigrwydd ymateb â sesiwn/sesiynau sy'n briodol o ran eu cynnwys, hyd, dwyster, cyflymder a thasgau

K10 sut mae derbyn cyfrifoldeb am eich llesiant chi a llesiant eich cyfranogwyr tra byddwch yn eu harwain mewn sesiwn ddawns

K11 creu asesiad risg ar gyfer sesiwn ddawns gan ystyried yr amgylchedd, y tymheredd, nifer y bobl, gweithwyr cymorth, a pholisïau cyn, yn ystod ac ar ôl sesiynau

K12 cyfrifoldebau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol mewn amgylchedd dawns

K13 sut mae ymddwyn a chyflwyno'ch hun yn broffesiynol i'r grŵp

Cysylltiadau â SGC eraill

Pwyntiau cyfeirio defnyddiol ar gyfer y safon hon o gyfresi SGC eraill:

Cyngor Sgiliau Sector: Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion

Cyfres: Cefnogi Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion

Bydd y gyfres gyfan o ddiddordeb i bobl sy'n gweithio gyda phobl ifanc ond bydd y safonau canlynol yn dangos beth welwch chi yno:

STL34 Cefnogi disgyblion dawnus a thalentog

STL38 Cefnogi plant ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig a'u teuluoedd (CCLD 321)

STL39 Cefnogi disgyblion ag anghenion cyfathrebu a rhyngweithio

STL41 Cefnogi disgyblion ag anghenion ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol

STL54 Cynllunio a chefnogi chwarae hunan-gyfeiriedig (PW9)

Datblygwyd gan	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Rhif y fersiwn	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2011
Dyddiad adolygu dangosol	
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad deilliadol	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Cyfeirnod Unigryw (URN) Gwreiddiol	CCSDL12
Galwedigaethau perthnasol	Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig a Llenyddol
Cyfes	Arweinyddiaeth Ddawns
Geiriau allweddol	arweinyddiaeth ddawns, dawns cymunedol, amddiffyn plant,



CCSDL13

CCSDL13 Ymgysylltu â grwpiau a'u rheoli drwy eich arweinyddiaeth ddawns mewn cyd-destun creadigol 1

Ymgysylltu â grwpiau a'u rheoli drwy eich arweinyddiaeth ddawns mewn cyd-destun creadigol

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag ymgysylltu â'ch cyfranogwyr yn eich sesiynau dawnys a meddu ar y gallu i gymhwyso amryw o ddulliau arwain dawnys sy'n cydbwysu anghenion dysgu unigolion a'r grŵp cyfan.

Meini Prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 ysbrydoli pobl ac ymgysylltu â nhw ar lefel y gallant ei deall ac ymuno ynddi

P2 cyflwyno disgwyliadau, ffiniau a chyfleoedd rhwng yr arweinydd, y cyfranogwyr, y tîm cefnogi a'r gweithgaredd, gan fod yn glir ynghylch y nodau a'r prosesau y byddwch yn eu defnyddio gyda'ch grŵp

P3 defnyddio'ch gallu creadigol i gefnogi syniadau creadigol a dychmygus y cyfranogwyr yn eu dawns a rhoi eich arddull ddawns ar waith mewn ffyrdd priodol ar gyfer dysgu person-ganolog

P4 cyfathrebu'n glir gan ddefnyddio sgiliau cyfathrebu geiriol ac aneiriol fel bod y cyfranogwyr yn eich deall, gyda chymorth perthnasol i'ch hunan, lle bo angen hynny, er mwyn gweithio'n effeithiol

P5 cydnabod eich cydweithio ag eraill er mwyn cyflawni nodau'r rhaglen ddawns

P6 ystyried pob agwedd ar ddarparu'ch rhaglen er mwyn ei haddasu yn ôl y galw

P7 datblygu ymddiriedaeth, gwerthoedd a rennir a rolau clir trwy eich ymarfer gyda'r bobl rydych chi'n ymgysylltu â nhw

P8 gallu cefnogi cyfranogwyr i ddatblygu ansawdd eu symudiadau a'u harddull ddawns

P9 adnabod ac annog datblygiad y cyfranogwyr fel bod ganddynt amrywiaeth mwy datblygedig o sgiliau wrth ddawnsio

Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 gwahanol strategaethau addysgu i hwyluso dulliau arwain y dysgu er mwyn i'ch cyfranogwyr ddatblygu'r wybodaeth gorfforol sydd ei hangen arnynt ar gyfer yr arddull ddawns dan sylw

K2 sut mae datblygu awyrgylch cynhwysol i annog ymgysylltu creadigol

K3 pwysigrwydd eich cyflwyniad proffesiynol a'ch gallu i dderbyn cyfrifoldeb am eich grŵp

K4 egwyddorion dysgu person-ganolog

K5 deinameg grwpiau, gan roi sylw penodol i sut mae llwyddo i reoli cyflymder dysgu ac ymgysylltu gwahanol ar gyfer unigolion mewn grŵp

K6 sut mae defnyddio ymholi a'ch menter creadigol i roi eich arddull ddawns ar waith gyda gwahanol gymunedau

K7 dulliau o ddatblygu penderfyniadau ar y cyd wrth greu dawns gyda'ch gilydd

K8 sut mae casglu, datblygu a saernïo syniadau dychmygus y cyfranogwyr i ddatblygu eu hymgysylltiad â'u dawns a'u hymholi beirniadol

K9 pwysigrwydd siarad gydag unrhyw weithwyr cymorth sy'n cymryd rhan yn eich sesiynau a sicrhau eu bod yn deall eich nodau er mwyn iddynt eich helpu i'w cyflawni gyda'r grŵp

K10 pwysigrwydd eich persona wrth arwain dawns gan ddefnyddio cyfarwyddiadau lleisiol clir ac ysbrydoli eich grŵp trwy eich adborth

K11 iaith y corff a sut mae gwneud i bobl deimlo'n gyfforddus drwy eich ymddygiad geiriol a dieiriau

K12 sut mae gwella a gwerthuso profiad creadigol cyfranogwyr drwy gydweithio â gweithwyr cymorth

Gwybodaeth Ychwanegol Rhestr Eirfa

Mae **dulliau arwain** yn cyfeirio at unrhyw ddull addysgu neu greadigol sy'n ysgogi'r ymgysylltu a'r dysgu gorau mewn unigolyn

Gwybodaeth am y corff - rheoli'r corff â gwahanol symudiadau. Yn dibynnu ar arddull y ddawns bydd angen gwahanol fathau o ymwybyddiaeth ofodol a chorfforol er mwyn darparu a phrofi'r symudiad a'i gyfleu yn glir i bobl eraill. Yn aml, gall hyn fod yn fater o gyfleu syniad â'r corff lawn cymaint â dysgu arddull ddawns.

Arddull ddawns - mae'r term hwn yn cwmpasu'r arddulliau dawns niferus (y cyfeirir atynt hefyd fel *genre*, ffurfiau) sy'n bodoli, i enwi rhai enghreifftiau yn unig: dawnsio stryd, dawns o dde Asia, dawnsio gwerin, dawns pobl Affrica, bale, dawnsio anarddulliedig, ymarfer somatig, dawnsio cyfoes.

Gwahanol gymunedau - yn y cyd-destun hwn gall cymuned gyfeirio at bobl sy'n dod at ei gilydd mewn un man (ysbyty, ysgol, canolfan gymunedol) neu grŵp o unigolion sy'n dod ynghyd yn sgîl diddordeb a rennir

Gweithwyr cymorth - defnyddir y term yma i gyfeirio at berson yr ydych wedi nodi'n ffurfiol fod ganddynt rôl gefnogi yn eich sesiynau dawns. Er enghraifft, gallent fod yn brentis arweinydd dawns, yn weithiwr gofal proffesiynol sy'n cynorthwyo unigolyn penodol, yn gynorthwy-ydd dysgu neu'n athro, yn artist arall sy'n cydweithio â chi, yn ymchwilydd, yn werthuswr, yn rhiant neu'n wirfoddolwr.

Ystyr **person-ganolog** yma yw dull arwain sy'n ceisio creu amgylchedd dysgu sy'n adeiladu ar nodweddion a chryfderau presennol pob unigolyn ac yn eu hannog i archwilio dawns yn weithredol.

Datblygwyd gan	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Rhif y fersiwn	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2011
Dyddiad adolygu dangosol	
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad deilliadol	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Cyfeirnod Unigryw (URN) Gwreiddiol	CCSDL13
Galwedigaethau perthnasol	Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig a Llenyddol
Cyfres	Arweinyddiaeth Ddawns
Geiriau allweddol	Arweinyddiaeth ddawns, dawns gymunedol, creadigrwydd, cyfranogi mewn dawns

CCSDL14

CCSDL14 Arddangos sgiliau a gwybodaeth technegol wrth arwain eich arddull(iau) dawns 1



Arddangos sgiliau a gwybodaeth technegol wrth arwain eich arddull(iau) dawns

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â sicrhau bod y sgiliau a'r wybodaeth technegol gennych i arddangos, disgrifio neu gywiro symudiadau eich cyfranogwyr a'u galluogi i ddysgu, yn fanwl-gywir, am eu cyrff a'r arddull(iau) dawns rydych chi'n eu darparu neu'n eu datblygu yn eich cyfranogwyr.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 arddangos sgiliau a gwybodaeth technegol yn yr arddull(iau) dawns rydych chi'n eu cynnig yn eich sesiynau i ysbrydoli eich grŵp

P2 bod yn gyfarwydd â'r datblygiadau diweddaraf mewn ymarfer dawns proffesiynol a'u defnyddio yn eich ymarfer

P3 sylweddoli pan fydd cyfranogwyr yn perfformio symudiad a allai achosi niwed i'r corff yn y tymor hir neu'r tymor byr a gallu ymateb â chyfarwyddiadau llafar a/neu arddangosiad corfforol er mwyn sicrhau y cyflawnir hyfedredd

P4 rhoi cyfarwyddiadau cywiro sy'n cefnogi gwahaniaeth ac yn rhoi sylw i godau ymddygiad moesegol ynghylch cyffwrdd, gofod personol a dulliau dysgu priodol ar gyfer cyfranogwyr

Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 lefel eich gallu yn eich dewis arddull(iau) dawns

K2 pwysigrwydd gloywi eich ymarfer symud a'ch gwybodaeth yn briodol ar gyfer yr arddulliau a'r prosesau dawns y byddwch yn eu harwain

K3 pwysigrwydd gwybodaeth anatomegol yng nghyswllt yr arddulliau dawns rydych chi'n eu harwain

K4 sut mae arddangos a chywiro aliniad y corff, a darparu her briodol i wella profiad dawnsio'r dysgwyr

K5 sut a phryd mae arddangos, herio a chefnogi er mwyn ysbrydoli ac ysgogi cyfranogwyr

Gwybodaeth Ychwanegol Rhestr Eirfa

Arddull ddawns - mae'r term hwn yn cwmpasu'r arddulliau dawns niferus (y cyfeirir atynt hefyd fel *genre*, ffurfiau) sy'n bodoli, i enwi rhai enghreifftiau yn unig: dawnsio stryd, dawns o dde Asia, dawnsio gwerin, dawns pobl Affrica, bale, dawnsio anarddulliedig, ymarfer somatig, dawnsio cyfoes.

Datblygwyd gan	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Rhif y fersiwn	1 Mawrth 2011
Dyddiad cymeradwyo	
Dyddiad adolygu dangosol	
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad deilliadol	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Cyfeirnod Unigryw (URN) Gwreiddiol	CCSDL14
Galwedigaethau perthnasol	Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig a Llenyddol Arweinyddiaeth Ddawns
Cyfres	
Geiriau allweddol	Arweinyddiaeth ddawns, dawns cymunedol, cyfranogi mewn dawns, symudiadau dawns, dawns

CCSDL15

CCSDL15 Saernïo dawns er mwyn ymgysylltu â chyfranogwyr a grwpiau 1

Saernïo dawns er mwyn ymgysylltu â chyfranogwyr a grwpiau



Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gwybod sut i saernïo dawns gyda'ch chyfranogwyr yn eich dewis arddull(iau) dawns.

Ar ei lefel fwyaf sylfaenol, mae'r safon hon yn golygu eich bod yn dilyn strwythur a ffurf sefydledig i gynllunio sesiwn a chynnwys chyfranogwyr yn yr arddull(iau) dawns a ddefnyddir.

Yn achos arweinwyr dawns nad ydynt yn dilyn strwythur traddodiadol sesiwn ddawns o ran yr arddull a ddefnyddiant neu sy'n defnyddio ymagwedd anarddulliedig, bydd strwythurau creadigol yn parhau i esblygu a chael eu dyfeirio. Po fwyaf y bydd arweinydd dawns yn datblygu strwythurau sy'n addas ar gyfer y chyfranogwyr mae'n gweithio gyda nhw, mwyaf profiadol y bydd o ran datblygu ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion.

Daw gwybodaeth am y gwahanol strwythurau coreograffig y gellir eu defnyddio i gwmpasu'r symudiadau y bydd pobl yn eu cyfrannu eu hunain yn bwysicach i'r arweinydd dawns fel cyfrwng i rannu syniad mewn mewn modd cydlynus â chynulleidfa, p'un a yw'r gynulleidfa honno'n gyfranogwyr eraill y grŵp neu'n berfformiad cyhoeddus

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 adnabod a hwyluso strwythurau cyfansoddi dawns sy'n briodol ar gyfer eich dewis arddull ddawns a'ch proses o greu dawns

P2 hwyluso strwythurau coreograffig sy'n briodol ar gyfer dyluniad eich rhaglen ac anghenion eich cyfranogwyr a'ch grwpiau

P3 cydweithio ag artistiaid a thechnegwyr eraill i ddarparu cyfansoddiadau a arweinir gan broses a chan berfformiad fel sy'n briodol i ddyluniad eich rhaglen ddawns

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 y cyfleoedd cyfansoddi yn eich dewis arddull ddawns a sut i'w rhoi ar waith yn eich sesiynau dawns

K2 sut mae cymhwysu'ch strwythurau cyfansoddi dawns yn effeithiol ar gyfer allbynnau a arweinir gan broses a rhai a arweinir gan berfformiad

K3 sut mae defnyddio ffurfiau celfyddydol eraill i gyfrannu at gyfansoddiad eich dawns

K4 sut mae hwyluso a chynnwys syniadau grwpiau trwy broses goreograffig

Gwybodaeth Ychwanegol Rhestr Eirfa

Defnyddir **cyfansoddi** yma yn derm eang sy'n cwmpasu'r gwahanol ffyrdd y bydd arweinydd dawns yn saernïo dawns. Er enghraifft, gall fod yn gyfuniadau gosod o gamau dawns a gwybod sut caiff y cyfuniadau hynny eu cynhyrchu fel arfer yn yr arddull ddawns dan sylw. Fodd bynnag, os yw'r arddull ddawns y byddwch yn ei harwain yn gofyn am symudiadau newydd gan eich cyfranogwyr, fel sy'n gallu digwydd yn achos dawnsio stryd, cyfoes, creadigol neu unrhyw gyfuniad o arddulliau dawns, bydd lefel sylfaenol o strwythurau coreograffig yn ofynnol er mwyn gallu saernïo'r deunydd a gynigir gan y cyfranogwyr.

Datblygwyd gan	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Rhif y fersiwn	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2011
Dyddiad adolygu dangosol	
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad deilliadol	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Cyfeirnod Unigryw (URN) Gwreiddiol	CCSDL15
Galwedigaethau perthnasol	Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig a Llenyddol
Cyfres	Arweinyddiaeth Ddawns
Geiriau allweddol	arweinyddiaeth ddawns, gwersi dawns, dawns gymunedol, saerñio dawns, coreograffi

CCSDL16

Cydweithio â ffurfiau celfyddydol eraill



Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â datblygu'ch ymwybyddiaeth o ffurfiau celfyddydol eraill a sut maen nhw'n gweithio gyda'ch dewis arddull ddawns.

Er enghraifft, gall cerddoriaeth fyw a dehongli sain drwy symudiad fod yn bwysig mewn bale, dawns o Dde Asia neu ddawns Pobl Affrica. Gall fod yn bwysig i artistiaid dawns creadigol ddefnyddio gwahanol ffurfiau celfyddydol fel testun, celf weledol, neu dechnoleg ddigidol i alluogi cyfranogwyr i ymgysylltu neu i gefnogi archwiliad creadigol o wisgoedd, sain a goleuo. Bydd manylder a phwysigrwydd y safon hon i'r arweinydd dawns unigol yn dibynnu ar yr arddull ddawns a ddefnyddir ac a fydd yr arweinydd dawns yn paratoi grwpiau ar gyfer perfformiad cyhoeddus.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 nodi ffyrdd o ddatblygu'ch ymwybyddiaeth o ffurfiau celfyddydol eraill a'u perthynas â'ch dawns chi

P2 adnabod a darparu dulliau o wella'ch darpariaeth ddawns gan ddefnyddio ffurfiau celfyddydol eraill lle bydd adnoddau'n caniatáu hynny

P3 nodi pryd y gallai fod angen i chi gydweithio ag artistiaid eraill a bod yn glir ynghylch eich rolau cyfunol

Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 pwysigrwydd gwybodaeth am ffurfiau celfyddydol eraill a sut gellir eu defnyddio, a'u cyfraniad i brosesau creu dawn

K2 hyd a lled eich gwybodaeth a'ch sgiliau eich hun mewn ffurfiau celfyddydol eraill

K3 gwerth cerddoriaeth a'r defnydd ohoni yn eich sesiynau a'ch perfformiadau dawn gan barchu'r defnydd ohoni, ei chyfansoddiad ac ansawdd yr atgynhyrchu

K4 y caniatâd neu'r trwyddedau sydd eu hangen er mwyn cael defnyddio cerddoriaeth a recordiwyd ymlaen llaw, gwaith ysgrifenedig neu gelf weledol i gefnogi'ch rhaglen ddawns, gan roi sylw penodol i berfformiadau cyhoeddus

Datblygwyd gan	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Rhif y fersiwn	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2011
Dyddiad adolygu dangosol	
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad deilliadol	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Cyfeirnod Unigryw (URN) Gwreiddiol	CCSDL16
Galwedigaethau perthnasol	Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig a Llenyddol
Cyfres	Arweinyddiaeth Ddawns
Geiriau allweddol	Arweinyddiaeth Ddawns, cydweithio, dawns cymunedol

CCSDL17

CCSDL17 Gweithio gyda gwirfoddolwyr, gweithwyr cymorth a rheolwyr 1



Gweithio gyda gwirfoddolwyr, gweithwyr cymorth a rheolwyr

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â'r perthnasoedd y gallwch eu meithrin i gefnogi'ch rhaglen ddawns.

Gallai arweinydd dawns chwilio am gymorth o'r mathau canlynol: derbynnydd neu wirfoddolwr i groesawu pobl a sicrhau eu bod nhw'n mynd adref yn ddiogel; gweithiwr cymorth i gymryd rhan yn y sesiwn gyda golwg ar helpu cyfranogwr anabl i gymryd rhan yn y sesiwn wrth ei bwysau; gwirfoddolwr i ffilmio sesiwn neu dynnu lluniau ynddi a sicrhau'r cydsyniad perthnasol i wneud hynny; cynorthwy-ydd marchnata i helpu i hysbysebu'r sesiynau.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 annog cyfnewid gwybodaeth o'r ddeutu a pharhau i ysgogi'r gweithwyr sy'n cefnogi eich rhaglen ddawns

P2 diffinio rolau a disgwyliadau eich tîm cefnogi yn glir

P3 cydnabod y cymorth sy'n cael ei roi a gwerthuso'i effeithiolrwydd drwy gydol y rhaglen

Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 sut mae defnyddio a chynnal y perthnasoedd rydych wedi'u meithrin yn y broses gynllunio i wella darpariaeth eich sesiynau dawns

K2 sut mae cydnabod y cymorth a ddarparwyd i chi, pwysu a mesur a yw'n cyfateb i'r hyn a gynlluniwyd a datblygu dull hyblyg o ymateb i ffynonellau cymorth annisgwyl neu ddiffyg cymorth

K3 pwysigrwydd diffinio rolau cefnogi cyn i'r rhaglen ddawns ddechrau ac ailedrych ar y rolau hyn drwy gydol y rhaglen ddawns a'u haddasu lle bydd angen

Datblygwyd gan	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Rhif y fersiwn	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2011
Dyddiad adolygu dangosol	
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad deilliadol	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Cyfeirnod Unigryw (URN) Gwreiddiol	CCSDL17
Galwedigaethau perthnasol	Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig a Llenyddol
Cyfes	Arweinyddiaeth Ddawns
Geiriau allweddol	arweinyddiaeth ddawns, rhaglenni dawns, dawns cymunedol, gwirfoddolwyr

CCSDL18

CCSDL18 Gwerthuso effaith sut rydych chi'n arwain dawnys drwy ymgysylltu â'ch grwpiau a rhanddeiliaid 1



Gwerthuso effaith sut rydych chi'n arwain dawnys drwy ymgysylltu â'ch grwpiau a rhanddeiliaid

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gwerthuso'ch arferion gwaith cyn, yn ystod ac ar ôl y sesiynau, gan ddefnyddio adborth o amrywiol ffynonellau i gefnogi'r farn a roddir.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 nodi'r ymholiad beirniadol a'r gwaelodlin ar gyfer eich cyfranogwyr ar ddechrau'r prosiect er mwyn olrhain eu datblygiad a sut maent yn newid o ganlyniad uniongyrchol i'ch rhaglen ddawns o fewn y nodau roeddech wedi'u pennu i chi'ch hun

P2 ceisio a choladu adborth gan eich grŵp a rhanddeiliaid eraill mewn amrywiaeth o fformatau

P3 nodi effaith eich cyfranogwyr dawns ar sut rydych chi'n arwain sesiynau

P4 rhoi prosesau ar waith i ddelio â'r wybodaeth a ddarperir, a rhoi sylw i ddiogelu data pan fyddwch chi'n dyfynnu pobl neu'n rhannu eu delwedd neu weithiau celf ac yn ysgrifennu adroddiadau gwerthuso ar gyfer rhanddeiliaid

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 sut mae darparu gwerthusiad parhaus sy'n berthnasol i'r nodau a bennwyd naill ai gennych chi neu gan gyflogwyr neu randdeiliaid

K2 gwahanol ddulliau priodol o gasglu data ansoddol gan eich grwpiau a rhanddeiliaid

K3 pwysigrwydd darparu cyfle yn y sesiwn i adfyfrio a chael adborth gan eich grŵp er mwyn llywio'r hyn y gallech ei wneud yn y sesiwn ac yng ngweddill y rhaglen

Datblygwyd gan	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Rhif y fersiwn	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2011
Dyddiad adolygu dangosol	
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad deilliadol	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Cyfeirnod Unigryw (URN) Gwreiddiol	CCSDL18
Galwedigaethau perthnasol	Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig a Llenyddol
Cyfres	Arweinyddiaeth Ddawns
Geiriau allweddol	arweinyddiaeth ddawns, cyfranogi mewn dawns, dawns cymunedol, dawns, gwerthuso, hunanwerthuso

CCSDL19

CCSDL19 Cyfleu canlyniadau gwerthuso effaith eich gwaith arwain dawn 1



Cyfleu canlyniadau gwerthuso effaith eich gwaith arwain dawn

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chyfleu'r hyn rydych wedi'i ddysgu yn sgîl gwerthuso eich gwaith arwain dawn. Bydd gofyn i chi ddehongli'r data a gasglwyd a llunio adroddiad ynghylch eich canfyddiadau.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 defnyddio'r data rydych wedi'i gasglu i lunio adroddiad sy'n addas i'ch gofynion chi neu ofynion rhanddeiliaid

P2 gweithredu'n gyfrifol gan roi sylw i ddiogelu data, yn enwedig wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, taflenni ac adroddiadau cyhoeddus ynghylch eich rhaglenni dawnys a'ch cyfranogwyr

P3 dehongli'r data gwerthusol a gasglwyd a'u defnyddio i ganfod y camau y gallwch eu cymryd i wella'ch ymarfer proffesiynol

P4 dehongli'r data gwerthusol a gasglwyd a'i baru â'ch sylwadau er mwyn cyfeirio datblygiad unigolion yn eich grwpiau

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 dulliau o rannu'r wybodaeth rydych wedi'i chasglu, gan fod yn ymwybodol o ddiogelu data

K2 pwysigrwydd nodi i bwy mae'r gwerthusiad: i chi eich hun, i'r grŵp neu i randdeiliaid eraill

K3 sut mae llunio adroddiad sy'n briodol i'r bobl fydd yn ei ddarllen ac i'r fforymau lle byddant yn ymateb iddo

K4 pwysigrwydd eich rhwydweithiau i gyfeirio'ch cyfranogwyr dawns at gyfleoedd dilyniant y tu hwnt i'ch sesiynau dawns

K5 pwysigrwydd bod yn ymwybodol o gyfleoedd i chi ddatblygu'n broffesiynol eich hunan

Datblygwyd gan	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Rhif y fersiwn	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2011
Dyddiad adolygu dangosol	
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad deilliadol	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Cyfeirnod Unigryw (URN) Gwreiddiol	CSDL19
Galwedigaethau perthnasol	Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig a Llenyddol
Cyfes	Arweinyddiaeth Ddawns
Geiriau allweddol	Arweinyddiaeth ddawns, dawns cymunedol, dawns, gwerthuso, hunanwerthuso

CCSDL20

Datblygu ymwybyddiaeth eich cyfranogwyr a'ch grŵp

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â sicrhau eich bod yn ymwybodol ohonoch eich hunan ac yn datblygu ymwybyddiaeth o'r unigolion yn eich grwpiau, er mwyn helpu i ddatblygu ansawdd y gwaith a gynhrychir. Disgwylir i chi nodi a chofnodi'r hyn rydych chi ac unigolion yn y grŵp wedi'i ddysgu.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 Nodi eich paramedrau a'ch sgiliau eich hun, a datblygu ymwybyddiaeth o botensial personol ymhlith unigolion yn eich sesiynau dawn

P2 Datblygu a chynnal diwylliant cadarnhaol o gasglu adborth gan eich grŵp er mwyn llywio a datblygu eich gwaith

P3 Cyfathrebu'n hyderus â'ch grŵp ar unrhyw adeg yn eich sesiwn i ofyn sut maen nhw'n dod ymlaen, a bod yn barod i newid gweithgaredd neu lefel egni mewn ymateb i'w hadborth

P4 Adnabod a chofnodi'r hyn rydych chi ac unigolion yn eich grŵp yn ei ddysgu yn sgîl y camau a gymerwch yn eich sesiynau

Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 Sut mae ymgysylltu â chyfranogwyr dawns a'u cefnogi yn y broses dysgu a datblygu

K2 Sut mae datblygu amgylchedd gyda'ch grŵp sy'n ymatblyg ac yn cynnig adborth

**Gwybodaeth Ychwanegol
Cysylltiadau â SGC eraill**

**Pwyntiau cyfeirio defnyddiol ar gyfer y
safon hon o gyfresi SGC eraill:**
Dysgu Gydol Oes yn y Deyrnas Unedig -
Datblygu hunanymwybyddiaeth yn eich
grwpiau

Datblygwyd gan	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Rhif y fersiwn	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2011
Dyddiad adolygu dangosol	
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad deilliadol	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Cyfeirnod Unigryw (URN) Gwreiddiol	CCSDL20
Galwedigaethau perthnasol	Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig a Llenyddol
Cyfres	Arweinyddiaeth Ddawns
Geiriau allweddol	arweinyddiaeth ddawns, dawns gymunedol, dawns, hunanymwybyddiaeth, cyfranogi mewn dawns



CCSDL21

Adnabod eich anghenion datblygu proffesiynol

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â dehongli'ch gwerthusiad a dod i gasgliadau ynghylch y sgiliau a'r cymorth y gallai fod eu hangen arnoch yn y dyfodol, gan ystyried pa hyfforddiant ac ymhle y gallech geisio datblygu eich sgiliau.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 nodi fframweithiau cymorth er mwyn datblygu eich ymarfer proffesiynol

P2 nodi meysydd blaenoriaeth o ran eich datblygiad proffesiynol ar sail adfyfrio ar eich ymarfer a thrwy eich cyswllt â chymheiriaid a rhanddeiliaid

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 sut mae dehongli eich gwybodaeth werthusol i ddod i gasgliadau am y cymorth perthnasol sydd ei angen arnoch i ddatblygu eich arferion gwaith

K2 pwysigrwydd cymorth cymheiriaid anffurfiol (ffrindiau, cydweithwyr, teulu) neu ffurfiol (mentor cyflogedig, hyfforddwr bywyd, rheolwr, cwrs) i'ch helpu i nodi eich sgiliau a'ch datblygiad

K3 chi eich hun a'ch nodau a'ch diddordebau tymor hir, a sut mae'r rhaglenni dawnys a luniwch yn cyfleu neu'n adlewyrchu'r rhain

Datblygwyd gan	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Rhif y fersiwn	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2011
Dyddiad adolygu dangosol	
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad deilliadol	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Cyfeirnod Unigryw (URN) Gwreiddiol	CCSDL21
Galwedigaethau perthnasol	Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig a Llenyddol
Cyfres	Arweinyddiaeth Ddawns
Geiriau allweddol	arweinyddiaeth ddawns, dawns cymunedol, dawns, hunanwerthuso, datblygiad proffesiynol parhaus

CCSDL22

CCSDL 22 Ymchwilio, nodi a darparu adnoddau ar gyfer eich datblygiad proffesiynol parhaus 1

Ymchwilio, nodi a darparu adnoddau ar gyfer eich datblygiad proffesiynol parhaus

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â cheisio'r datblygiad sydd ei angen arnoch a chael hyd i ffyrdd eraill o ddarparu adnoddau ar gyfer eich datblygiad proffesiynol parhaus er mwyn i chi allu dangos i eraill bod eich gwybodaeth a'ch sgiliau ymarfer yn gyfredol.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 gwerthuso effaith eich datblygiad proffesiynol ar eich arferion gwaith fel arweinydd dawns ac effaith hynny ar eich cyfranogwyr

P2 datblygu eich portffolio gan nodi manylion eich sgiliau a'ch datblygiad proffesiynol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 Pwysigrwydd eich rhwydweithiau a'ch aelodaeth o grwpiau o ran rhoi gwybod i chi am y cyfleoedd diweddaraf o ran datblygiad proffesiynol

K2 Gwerth y bobl rydych chi'n eu hadnabod, eu sgiliau a sut mae defnyddio eich rhwydwaith cymorth i'ch helpu i feithrin a rhannu eich sgiliau

K3 Pwysigrwydd cydnabod gwerth eich datblygiad proffesiynol a buddsoddi ynddo, gan fod yn ymwybodol o'r patrymau cyllido cyfredol a allai eich helpu i gyllido eich datblygiad proffesiynol

K4 Dulliau datblygiad proffesiynol a sut mae dangos neu ddarparu enghreifftiau o'ch datblygiad proffesiynol

Gwybodaeth Ychwanegol Rhestr Eirfa

Yn y cyd-destun hwn gall **darparu adnoddau** olygu cael hyd i arian i dalu am y cyrsiau neu'r cymwysterau rydych am eu cyflawni. Fodd bynnag, gall hefyd olygu chwilio am gymorth ymarferol, e.e. gallai cymheiriad sy'n dda iawn mewn maes rydych chi'n llai medrus ynddo gynnig ychydig o gymorth ac amser er mwyn i chi gael dysgu ganddi/ganddo a gallech chi gynnig rhywbeth iddi/iddo yn gyfnewid am hynny. Mae llawer o ffyrdd creadigol i chi ddatblygu eich hun heb orfod cael cymorth ariannol, ond mae gofyn i chi adnabod gwerth eich grwpiau cymheiriaid a mentoriaid, drwy ddarparu tystiolaeth o'r hyn rydych wedi'i ddysgu.

Datblygwyd gan	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Rhif y fersiwn	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2011
Dyddiad adolygu dangosol	
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad deilliadol	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Cyfeirnod Unigryw (URN) Gwreiddiol	CCSDL22
Galwedigaethau perthnasol	Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig a Llenyddol
Cyfres	Arweinyddiaeth Ddawns
Geiriau allweddol	arweinyddiaeth ddawns, dawns gymunedol, dawns, datblygiad proffesiynol parhaus

CCSDL23

Myfyrio ynghylch eich darpariaeth broffesiynol a darparu adnoddau ar ei chyfer

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â sicrhau eich bod yn gallu adnabod ble y dylech chi fod yn datblygu eich sgiliau eich hun, a hefyd pa agweddau ar eich ymarfer proffesiynol y gallech chi ofyn i eraill eu cyflawni er mwyn i chi allu canolbwyntio ar eich sesiynau. Os ydych yn brin o adnoddau, myfyrio ar hynny a meddwl yn greadigol ynghylch sut y gallech ail-lunio eich cynnig o ran dawns er mwyn bod yn glir ynghylch yr hyn y gallwch a'r hyn na allwch ei ysgwyddo.

Er enghraifft, wrth redeg ysgol ddawns breifat, gallai'r arweinydd dawns nodi nad oes sgiliau rheoli cyfrifon ganddo/ganddi, ond nad yw'n gallu fforddio cyflogi cyfrifydd ac eithrio i reoli'r cyfrifon diwedd blwyddyn. Fodd bynnag, hwyrach y byddai rhiant yn fodlon gwirfoddoli i gefnogi'r ysgol ddawns drwy wneud ychydig o dasgau gweinyddu i gadw'r cofnodion ariannol yn gyfredol a thrwy hynny, ddarparu adnoddau i lenwi'r bwlch yn sgiliau'r arweinydd dawns.

Posibilrwydd arall yw y gallai ymarferydd dawns sy'n gweithio ar ei liwt ei hun gael anhawster i gadw trefn ar y dyddiadur ac ystyried defnyddio meddalwedd ffynhonnell agored am ddim i reoli'r tasgau gweinyddu wrth deithio o le i le. Gallai hefyd drafod telerau newydd mewn contractau i egluro'r hyn y byddai'n dymuno i reolwyr ei drefnu ar ei g/chyfer, o ran marchnata'r rhaglen, yn hytrach na derbyn cyfrifoldeb personol yn unig am hysbysebu'r rhaglen ddawns.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 gwirio bod gan eich rhaglenni dawnys adnoddau digonol

P2 nodi pa gymorth a gewch o ran eich darpariaeth broffesiynol a'r budd a gewch ohono

P3 nodi'r cymorth gweinyddu sydd ei angen arnoch yn eich darpariaeth broffesiynol a chynllunio sut y gallwch ei ddirprwyo i eraill gan ddefnyddio adnoddau ariannol neu beidio, yn ôl yr angen

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 pwysigrwydd bod yn ddibynadwy yn eich darpariaeth broffesiynol

K2 pwysigrwydd meddwl yn greadigol ynghylch sut y byddwch yn darparu adnoddau ar gyfer eich rhaglenni dawnys yn y dyfodol, o gofio'r sgiliau sydd gennych a'r bylchau o ran eich sgiliau

K3 gwerth y bobl rydych chi'n eu hadnabod, eu sgiliau a sut mae defnyddio eich rhwydwaith cymorth personol i gynnig mwy o gefnogaeth i'ch ymarfer proffesiynol

K4 pwysigrwydd eich rhwydwaith cymorth personol o ran cael gwybod am batrymau ariannu cyfredol a allai eich helpu gyda'ch darpariaeth broffesiynol

K5 yr hyn sy'n berthnasol i ddatblygiad eich ymarfer proffesiynol a sut mae cael hyd i gymorth i'ch cefnogi wrth i chi ddarparu yn y dyfodol

K6 sut mae rheoli eich cyllid er mwyn caniatáu i chi ddarparu adnoddau ar gyfer meysydd hanfodol o'ch ymarfer proffesiynol personol

Datblygwyd gan	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Rhif y fersiwn	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2011
Dyddiad adolygu dangosol	
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad deilliadol	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
Cyfeirnod Unigryw (URN) Gwreiddiol	CCSDL23
Galwedigaethau perthnasol	Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig a Llenyddol
Cyfres	Arweinyddiaeth Ddawns
Geiriau allweddol	Datblygiad proffesiynol parhaus, arweinyddiaeth ddawns, dawns, dawns cymunedol, myfyrio, gwerthuso